

# amserbeibl

## Astudiaethau Beiblaidd – Safon 4

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth



### Astudiaethau Beiblaidd o lyfr Exodus

Yn y rhifyn hwn, mae "ch", "dd", "ff", "ng", "ll", "ph", "rh" ac "th" yn cael eu trin fel dwy lythyren yn y posau a rhoddir nhw mewn dau flwch ar wahân.



DARLLENWCH  
Exodus 1: 5-22,  
2: 1-25



ADNOD  
ALLWEDDOL  
Hebreaid 11:23

### Astudiaeth I Moses – Y Tywysog

#### Awgrymiadau am Adnодau Eraill i'w Darllen

Numeri 26: 58 a 59   Actau 7: 17-29

Moses yw prif gymeriad llyfr Exodus. Ystyr y gair 'Exodus' yw 'ymadawiad' ac wrth i ni barhau â'n hastudiaethau yn y llyfr hwn, fe welwn pam mai dyma'r enw a roddwyd arno. Roedd rhieni Moses yn Hebreaid (Israeliaid) o deulu neu dylwyth Lefi. Roedd Lefi yn un o ddeuddeg mab Jacob. Duw roddodd yr enw Israel ar Jacob.

#### C Edrychwrch ar Numeri 26:59 er mwyn dod o i hyd i enwau ei deulu.

Tad: \_\_\_\_\_ Mam: \_\_\_\_\_ Brawd: \_\_\_\_\_ Chwaer: \_\_\_\_\_

4

Pan anwyd Moses, roedd yr Israeliaid yn gaethweision i'r Eiffiaid.

#### C Enwch y ddwy ddinas a adeiladodd yr Israeliaid i'r Eiffiaid.

2

#### C Pa dasgau eraill y gorfolwyd nhw i'w cyflawni?

1

Roedd Pharo, brenin yn Aifft, yn poeni fod yr Israeliaid yn mynd yn rhy niferus, felly gorchmynnodd i fydwragedd yr Hebreaid ladd pob mab bach ar ei enedigaeth.

#### C Pam na wnaeth y bydwragedd uffuddhau i'r gorchymyn hwn?

1

Roedd y bydwragedd hyn yn gwybod fod gorchymyn Pharo yn drosedd ac fe ddewison nhw uffuddhau i gyfraith Duw yn hytrach na'r brenin, er eu bod yn gwybod y byddai Pharo, o bosibl, yn eu cosbi am hyn. Er hynny, derbyniodd Pharo eu hesgus a chawsant eu bendithio gan Dduw.

#### C Beth oedd y gorchymyn nesaf roddodd Pharo?

1

Ganwyd Moses i Amran a Jochebed yn ystod y cyfnod hwn.

**C Beth wnaeth mam y baban er mwyn diogelu ei fywyd?**

1  
2

2

**C Pa air yn yr Adnod Allweddol sy'n esbonio pam y cuddiwyd y baban gan ei rieni?**

Wrth i'r stori fynd yn ei blaen, mae'n amlwg fod llaw Duw ar fywyd Moses. Mae'n siŵr fod Miriam, chwaer hŷn Moses, yn poeni'n arw pan ddaeth y dywysoges o hyd i'w brawd bach yn ei gawell. Pan sylweddolodd nad oedd merch Pharo yn mynd i'w daflu'n syth i'r afon Neil, daeth ar frys o'i chuddfan a chynigiodd fynd i nôl un o wragedd yr Hebrewaid i fagu'r babi drosti.

2

**C Pwy gafodd ei thalu am fagu'r baban?**

Pan ddaeth Moses yn ddigon hen, cymerwyd ef i'r palas, cafodd ei fagu fel wyr i Pharo a'i hyfforddi yn holl ddoethineb yr Eifftiaid (gweler Actau 7: 22). Er hynny, gallwn wybod i sicrwydd fod ei "nyrs" eisoes wedi ei ddysgu am ei bobl ei hun, yr Hebrewaid, a'u Duw - yr unig wir Dduw. Pan oedd yn ddeugain oed, penderfynodd Moses ymweld â'i gyd-Israeliaid. Roedd yn gynddeiriog pan welodd un o'r Hebrewaid yn cael ei daro gan Eifftiwr.

1

**C Pa ddua beth wnaeth Moses ar ôl hyn?**

1  
2

2

Yn anffodus, drannoeth, darganfu fod pobl yn gwybod am yr hyn a wnaeth. Weithiau, byddwn ni'n gwneud pethau rydym ni'n gwybod eu bod nhw'n anghywir ac yn meddwl na ddaw neb i wybod amdanynt nhw. Yn fynych iawn, mae'r pethau hyn rywsut yn dod i'r amlwg, ar yr adeg waethaf un yn aml! Er hynny, hyd yn oed os na chawn ein dal gan eraill, nid yw hynny'n golygu nad yw Duw'n sylwi ar ein gweithredoedd.

1

**C Edrychwr ar Hebrewaid 4: 13 ac esboniwr yn gryno **YN EICH GEIRIAU EICH HUN** beth yw'r wers i ni.**

[Empty box]

1

**C Roedd Moses yn disgwyl i'r Hebrewaid ei dderbyn fel beth? (gweler Actau 7: 25)**

[Empty box]

Roedd hi'n amlwg fod Duw wedi datgeli wrth Moses ei fod Ef wedi ei ddewis i waredu'r Hebrewaid o'u caethiwed yn yr Aifft. Ond ceisiodd Moses ddatrys y sefyllfa ar ei liwt ei hun a thrwy wneud hynny cyflawnodd drosedd enbyd. Er hynny, roedd Duw yn dal yn cyfeirio bywyd Moses, er nad oedd Moses, efallai yn ymwybodol o hynny. Clywodd Pharo am yr hyn wnaeth Moses a chynllwyniodd i'w ladd, felly bu'n rhaid iddo ffoi o'r Aifft.

2

**C I ble'r aeth Moses?**

[Empty box]

**C Ble cwrddodd e â'i wraig?**

[Empty box]

Mae'n debyg fod Moses yn meddwl na fyddai fyth o unrhyw gymorth i bobl Dduw bellach. Ond nid felly y bu. Roedd cynllun Duw ar waith. Gweddiodd yr Israeliaid a chlywodd Duw eu gweddi. Roedd Duw yn bwriadu cadw Ei addewid i'w rhyddhau a'u harwain i'w gwlaid eu hunain. Mae addewidion Duw i ninnau hefyd yn ddi-ffael. Gallwn ddibynnus arnynt. Mae Duw yn awyddus i'n rhyddhau ni o gaethiwed pechod a'n dwyn i'r Nefoedd. Ymddiriedwch ynddo Ef ac fe wnaiff hynny drosoch.



DARLLENWCH  
Exodus 3: 1-16,  
4: 1-17



ADNOD  
ALLWEDDOL  
Actau 7: 35

## Astudiaeth 2 Moses – Y Bugail

### Awgrymiadau am Adnoda Eraill i'w Darllen

Actau 7:29-36



Aeth deugain mlynedd arall heibio ar ôl i Moses ffoi o'r Aifft a chyn i Dduw siarad ag ef o ganol y berth oedd yn llosgi. Roedd Moses, felly, yn wyth deg oed.

## GRID GEIRIAU

(Gweler Exodus 3: 1-6 a 4: 9-14)

### Cliwiau i Lawr

- I. Tad-ying-nghyfraith Moses
2. Disgrifir Duw fel Duw .....
3. Pwy ymddangosodd i Moses mewn fflam dân o ganol y berth?
4. Pwy siaradodd â Moses o ganol y berth?
5. Disgrifiwyd Duw hefyd fel Duw.....
6. Brawd Moses.
7. Enw'r wlad lle'r oedd tad-ying-nghyfraith Moses yn offeiriad.
8. Pe bai Moses yn arllwys dŵr o'r afon Neil ar y tir, dywedodd Duw y byddai'n troi'n ....?



8

- C** Roedd y llecyn lle safai Moses yn dir sanctaidd.  
Pam bod Duw wedi disgrifio'r llecyn yn y ffordd arbennig hon?

I

- C** Beth ddywedodd Moses pan alwodd Duw arno o ganol y berth?

I

- C** Pa dasg arbennig roedd Duw yn gofyn i Moses ei gwneud drosto?

I

Pan glywodd Moses beth oedd y dasg arbennig hon, doedd e ddim yn siŵr a oedd e eisiau uffuddhau

- C** Pa ddau beth addawodd Duw i Moses, er mwyn ei annog i uffuddhau Iddo?  
(gweler adnod 12)

1
2

2

Roedd Moses yn dal yn ansicr! Cyflwynodd nifer o esgusodion.

- C Yn y bylchau isod, crynhowch ymateb Duw i bob gwrthwynebiad o eiddo Moses.**



### GWRTHWYNEBIAD MOSES

### YMATEB DUW

Bydd yr Israeliaid yn gofyn i mi,  
“Beth yw enw Duw?” (3: 13)

Fe ddywed yr Israeliaid,  
“Dydyn ni ddim yn dy gredu ....  
nid yw'r Arglwydd wedi  
ymddangos i ti” (4: 1)

Dwi ddim yn dda  
iawn am siarad. (4: 10)

1

2

1

1

- C Pa ran oedd Aaron i chwarae yn y dasg roddodd Duw i Moses?**

- C Edrychwch ar yr Adnod Allweddol ac ysgrifennwch y ddwy dasg roedd Duw wedi anfon Moses nôl i'r Aifft i'w cyflawni**

1

2

2

Mae Duw yn dal i alw pobl heddiw. Fyddwch chi'n clywed Duw yn siarad â chi pan fyddwch chi'n darllen y Beibl neu drwy gyfrwng yr astudiaethau hyn? Ydych chi'n ufuddhau i'r hyn mae Duw'n ei ddweud wrthych? Y peth cyntaf y mae Duw yn gofyn i rywun ei wneud yw Ei ddilyn Ef - edifarhau am ei bechod a derbyn yr Arglwydd lesu Grist yn Waredwr ac yn Arglwydd. Dyma sy'n eich gwneud yn Gristion, sef "un sy'n dilyn Crist".

Pan fyddwn ni'n Gristnogion, rhaid i ni fod yn barod i wasanaethu Duw ym mha bynnag ffordd mae Ef yn dymuno. Mae Duw wedi addo i ni y bydd Ef gyda ni (Mathew 28: 20) ac y bydd yn rhoi i ni'r geiriau fydd eu hangen arnom, yn union fel yr addawodd Ef i Moses. (Luc 12: 12).

DARLENWCH  
Exodus 7: 1-25ADNOD  
ALLWEDDOL  
Diarhebion 29: 1

## Astudiaeth 3 Moses – Yr Arweinydd

### Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen

Salm 95: 6-8 Salm 105: 26-35 Eseia 55: 6 a 7

Pan ddaeth Moses yn ôl i'r Aifft a phan gyfarfu â'i frawd Aaron, roedd Duw yn dal i ddweud wrthyn nhw beth ddylen nhw ei wneud a'i ddweud wrth Pharo. Dangosodd Duw iddyn nhw hefyd ei fod Ef yn gwybod yn union beth oedd yn mynd i ddigwydd a sut y byddai Pharo a'r Eiffiaid yn ymateb.



**C** Darllenwch adnодau 3 a 4 unwaith eto, ac ysgrifennwch **YN EICH GEIRIAU EICH HUN** beth ddywedodd Duw fyddai'n digwydd.


2

**C** Beth fyddai'r Eiffiaid yn ei wybod o ganlyniad i'r plâu a anfonodd Duw arnyn nhw?

--

I

Does dim amheuaeth fod Duw wedi anfon y plâu fel cosb ar Pharo am i hwnnw Ei wrthwynebu.

**C** Beth oedd Pharo'n gwrthod ei wneud?

--

I

Pan fyddwn ni'n dewis anufuddhau i Dduw, mae ein calonnau'n mynd yn fwyfwy caled ac ystyfnig.

**C** Ysgrifennwch yr adnod o'r Darleniad o'r Beibl sy'n dangos fod hyn yn wir am Pharo.


2

Mewn cyferbyniad â Pharo, sylwch yn ofalus ar yr hyn sy'n cael ei ddweud am uffudd-dod Moses ac Aaron.

**C** Edrychwrch ar adnодau 6, 10 a 20 yn y Darleniad o'r Beibl.  
Beth sy'n cael ei ddweud wrthym amdanyn nhw ym mhob un o'r adnодau hyn?

--

I

Mae'r ffaith fod hyn yn cael ei ailadrodd dair o weithiau yn y bennod hon yn dangos pa mor bwysig yw. Pan fyddwn ni'n uffudd i Dduw, byddwn yn derbyn Ei fendith.

**C** Ym mha ffordd y dangosodd Duw fod Ei allu yn fwy na gallu'r swynwyr?


2

Ar ôl yr arwydd hwn o allu Duw, daeth y pla cyntaf o'r deg – trodd dŵr afon Neil yn waed.

**C Pa dri effaith ddaeth yn sgil y pla hwn?**

1

2

3

3

**C Darllenwch Exodus 8: 19 ac ysgrifennwch beth ddywedodd y swynwyr wrth Pharo am y plâu.**

I

Roedd y swynwyr yn cydnabod pwy oedd ffynhonnell y gwrthiau a gyflawnodd Moses ac Aaron. Gwyddai Pharo hynny hefyd, yn ddi-os, ond roedd yn dal i wrthod gwrando a rhyddhau'r Israeliaid. Rhaid i ninnau fod yn ofalus nad ydym yn gwneud rhywbeth tebyg – e.e. gwrthod gwrando ar Dduw a mynd ein ffordd ein hunain yn fwriadol – oherwydd mae'r ffordd honno yn arwain i ddistrwyw.

**C Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol**

2


# CROESAIR

## Ar Draws

1. Dywedodd yr Arglywydd wrth Moses y byddai Aaron yn .... iddo. (ad.1)
- 2 "Yr Arglywydd, Duw'r ..... ." (ad.16)
4. Sawl diwrnod a aeth heibio wedi i'r Arglywydd daro'r afon Neil? (ad.25)
5. Roedd Aaron .... blynedd yn hŷn na Moses. (ad.7)
6. Gwnaeth gwialen (ffon) Aaron hyn i wial y swynwyr. (ad.12)

## I Lawr

1. Enw arall ar y brenin.
- 3.Yr adeg honno o'r dydd pan gyfarfu Moses â'r brenin.(ad.15)
6. Bydd Duw'n gosod neu estyn hon.(ad.5)
- 7.Y wlad lle'r oedden nhw'n gaethweision.(ad.3)
8. Roedd y cawgiau wedi eu gwneud o hwn.(ad.19)



5

Daeth mwy o blâu i ddilyn. Weithiau, cyfaddefai Pharo ei bechod a chytunai i ryddhau'r Israeliaid. Byddai'n gofyn i Moses weddio ar ei Dduw i ddod â'r pla i ben. Er hynny, cyn gynted ag y byddai'r pla drosodd, byddai'n torri ei air. Gwaetha'r modd, mae llawer o bobl yn dal i drin Duw fel hyn. Byddant yn galw arno Ef pan fyddant mewn trafferth ac angen Ei help, ond yn Ei anghofio pan fydd popeth yn mynd yn iawn.



DARLLENWCH  
Exodus 11: 1-10,  
12: 1-13, 21-42



ADNOD  
ALLWEDDOL  
Ioan 1: 29,  
I Corinthiaid 5: 7

## Astudiaeth 4 Moses – Y Gwaredrwr



### Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen

Salm 105: 36-38 Hebreaid 11: 28 | Pedr 1: 18 a 19

Y pla neu'r gosb hon, yr olaf o'r deg, a ddisgrifiwyd yn y Darleniad o'r Beibl oedd y gwaethaf a'r mwyaf difrodus ohonynt i gyd o safbwyt yr Eifftiaid. Ond, i'r Israeliaid, a wnaeth bopeth yn union fel y dywedodd Duw wrthyn nhw, roedd yn gyfrwng i'w gwared o'u caethwsiaeth ac yn gychwyn ar eu taith i Wlad yr Addewid. Gall hyn fod yn arwyddocaol iawn i ninnau heddiw, oherwydd bwriadodd Duw i'r digwyddiad hwn fod yn ddarlun o'r hyn y byddai'r Arglwydd lesu Grist yn ei wneud drosom ni.

**C** Edrychwr ar y ddwy Adnod Allweddol. Sut mae Iesu Grist yn cael ei ddisgrifio yn y naill a'r llall?

Ioan 1: 29

2

I Corinthiaid 5: 7

1

**C** Ym mha adnod yn Exodus pennod 12 mae'r DDAU air 'pasg' ac 'aberth' i'w gweld?

Fe welwn, felly, fod yr Arglwydd lesu Grist yn cael ei ddisgrifio fel yr Oen, ac fel ein Pasg a'n Haberth ni. Yn union fel roedd yn rhaid i oen y Pasg fod heb nam, roedd yr Arglwydd lesu hefyd yn ddibechod. Lladdwyd yr oen. Cymerwyd ei fywyd a thaenwyd ei waed ar ddrysau tai pob un o'r Israeliaid. Addawodd Duw warchod pob cartref oedd â'r arwydd hwnnw arno rhag angel barn a marwolaeth. Yn yr un modd, aberthodd Crist ei fywyd ar y groes a thywallwyd Ei waed. Mae angen i ni gymhwysyo hyn i'n bywydau ni drwy ymddiried ynddo Ef drosom ein hunain am ein hiachawdwriaeth. Mae Duw yn addo amddiffyn pob un sydd wedi ymddiried yng Nghrist am ei achubiaeth a'i arbed rhag barn.

**C** Darllenwr I Pedr 1: 18 ac 19 ac ysgrifennwch beth mae Pedr yn ei ddweud yw'r pris a dalwyd i'n prynu neu ein rhyddhau ni.

2

## RHIFAU

**C** Mae llawer o rifau yn Exodus, pennod 12! Esboniwch sut a ble mae'r rhifau canlynol yn ymddangos yn yr hanes.

2

(adn22)

10

(adn3)

14

(adn6)

600,000

(adn37)

430

(adn40)

5

# GEIRIAU

**C Beth yw'r geiriau unigol fydd yn ateb pob un o'r cwestiynau canlynol.**

Dywedwyd wrth yr Israeliaid am ofyn i'w cymdogion am fenthyg tlysau wedi eu gwneud o'r ddau ddeunydd hwn. 1.      2.

Dyma'r ffordd roedd yr Israeliaid i goginio'r oen.

Roedd yr Israeliaid i daenu hwn ar byst a chapan drws y tai.

Ym mhob tŷ yn yr Aifft lle na fyddai hyn wedi ei wneud, byddai'r person hwn neu anifail yn marw.



Cariodd yr Israeliaid eu toes cyn ei lefeinio mewn llestri tylino (llestri pobi) ar eu



Dechreuodd yr Israeliaid ar eu taith o'r lle hwn. (Adnod 37)

**C Ad-drefnwch yr wyth llythyren sydd wedi eu hamlygu yn y blychau uchod i ffurfio dau air sy'n ymddangos yn y Darlleniad cyntaf o'r Beibl. Beth yw'r gair?**

7

**C Disgrifiwch sut y defnyddir y ddu air yma yn y stori.**

I

**C Yn Exodus 12: 28 gwelwn i'r Israeliaid wneud yn union fel y gorchmynnodd yr Arglwydd i Moses ac Aaron. Beth wnaethon nhw yn union cyn hyn?**

I

Cadwyd Israel yn ddiogel, nid yn unig oddi wrth farn Duw drwy'r gwaed a daenwyd ar byst y drysau, ond cawsant eu rhyddhau o fod yn gaethweision i'r Eifftiaid. Os byddwn ni'n ymddiried yn yr Un a fu farw drosom, daw Ef hefyd â ni i ryddid ac i fywyd newydd. Ydych **Chi'n** adnabod yr Arglwydd lesu fel eich Gwareddwr personol? Ydych **Chi** wedi ymddiried ynddo? Ydych **Chi** wedi derbyn Ei aberth drosoch **Chi?** Ydych **Chi** wedi cael eich achub rhag barn Duw ar Eich peched ac wedi eich rhyddhau o gaethiwed peched am byth?

cyfanswm

Marciau  
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm  
Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services, P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.  
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar [www.biblelinkit.com](http://www.biblelinkit.com) neu ffôn i 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.

Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygydd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.  
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o [www.amserbeibl.org](http://www.amserbeibl.org)

Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:  
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Powys LL53 6SH ☎ 01766 819120